


# Bargen Ddinesig

## Prifddinas-Ranbarth Caerdydd



## Crynodeb Gweithredol

1. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi sicrhau borgen gwerth £1.2 biliwn. Yn ystod ei hoes, mae partneriaid yn lleol yn disgwyl i'r Fargen Ddinesig greu hyd at 25,000 o swyddi newydd a denu £4 biliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad y sector preifat.
2. Bydd y Fargen Ddinesig hon yn rhoi pwerau ac adnoddau i bartneriaid lleol i greu twf economaidd arwyddocaol ledled y Brifddinas-Ranbarth. Mae'n fargen sy'n adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei sylfaen o sgiliau ar lefel uchel a thair prifysgol lwyddiannus. Hefyd mae'r Fargen Ddinesig yn gyfle i barhau i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal twf economaidd yn yr ardal drwy gyfrwng y canlynol: gwella cysylltedd trafnidiaeth; cynyddu lefelau sgiliau ymhellach fyth; cefnogi pobl i waith; a rhoi i fusnesau'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i arloesi a thyfu.
3. Hefyd bydd y fargen hon yn datblygu arweinyddiaeth gadarnach a mwy effeithiol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan alluogi deg o arweinwyr yr awdurdodau lleol i ddod at ei gilydd i wneud penderfyniadau, pwlio adnoddau a gweithio'n fwy effeithiol gyda busnesau lleol.
4. Mae Borgen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys y canlynol:
  - **£1.2 biliwn o fuddsoddiad yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.** Un flaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi fydd gweithredu Metro De Ddwyrain Cymru, gan gynnwys y rhaglen i Drydaneiddio Lein y Cymoedd.
  - **Cysylltu'r rhanbarth.** Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sefydlu **Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol** anstatudol i gydlynw'r cynllunio a'r buddsoddi mewn trafnidiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
  - **Cefnogi arloesi a gwella'r rhwydwaith digidol.** Er mwyn datblygu gallu ym maes Rhaglenni Lled-ddargludyddion Cyfansawdd bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £50 miliwn er mwyn sefydlu Canolfan Catapult yng Nghymru. Hefyd bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu ac yn cefnogi busnesau arloesol sydd o werth mawr.
  - **Datblygu gweithlu sgiliedig a mynd i'r afael â diweithdra.** Bydd Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei greu (gan adeiladu ar y trefniadau presennol) er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth o sgiliau a chyflogaeth yn ymateb i anghenion busnesau a chymunedau lleol. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynllunio'r gefnogaeth i gyflogaeth yn y dyfodol, o 2017 ymlaen, ar y cyd, ar gyfer pobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd a/neu sy'n ddi-waith yn y tymor hir.
  - **Cefnogi menter a thwf busnes.** Bydd Sefydliad Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei sefydlu i sicrhau bod un llais yn gweithredu dros fusnes i weithio gydag arweinwyr yr awdurdodau lleol.
  - **Datblygu tai ac adfywio.** Mae Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwymo i ddull partneriaeth newydd o weithredu gyda chynllunio strategol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd cymunedau cynaliadwy'n cael eu creu, drwy ddefnyddio ac aildefnyddio eiddo a safleoedd.

Mae'r ffaith ein bod ni'n llofnodi'r ddogfen hon, yn amodol ar gymeradwyaeth berthnasol y cynghorau, yn cadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau gweithredu llawn ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynigir gan: Cyngor Dinas Caerdydd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; Cyngor Sir Fynwy; Cyngor Dinas Casnewydd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; a Chyngor Bro Morgannwg.

.....  
Y Gwir Anrhydeddus  
Stephen Crabb  
Ysgrifennydd Gwladol  
Cymru

.....  
Y Gwir Anrhydeddus  
Carwyn Jones  
Prif Weinidog Cymru

.....  
Y Cynghorydd Phil Bale  
Arweinydd Cyngor Dinas  
Caerdydd

.....  
Y Gwir Anrhydeddus  
Greg Hands  
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

.....  
Jane Hutt  
Y Gweinidog ar gyfer Cyllid a  
Busnes y Llywodraeth  
Llywodraeth Cymru

.....  
Y Cynghorydd  
Steve Thomas  
Arweinydd Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Blaenau Gwent

.....  
Y Cynghorydd  
M E J Nott OBE  
Arweinydd Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Pen-y-bont ar Ogwr

.....  
Y Cynghorydd  
Keith Reynolds  
Arweinydd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Caerffili

.....  
Y Cynghorydd  
Brendan Toomey  
Arweinydd Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Merthyr Tudful

.....  
Y Cynghorydd Peter Fox  
Arweinydd  
Cyngor Sir Fynwy

.....  
Y Cynghorydd Bob Bright  
Arweinydd  
Cyngor Dinas Casnewydd

.....  
Y Cynghorydd  
Andrew Morgan  
Arweinydd Cyngor  
Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf

.....  
Y Cynghorydd

.....  
Y Cynghorydd Neil Moore

Robert Wellington CBE  
Arweinydd Cyngor  
Bwrdeistref Sirol Torfaen

Arweinydd Cyngor Bro  
Morgannwg

## Cyflwyniad

5. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys deg awdurdod lleol: Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg. Dyma ddinas ranbarth mwyaf Cymru ac mae'n cyfrif am oddeutu 50% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru a 49% o gyfanswm y gyflogaeth. Mae'n cynnwys mwy na 38,000 o fusnesau gweithredol.
6. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ardal y mae pobl eisiau byw a gweithio ynddi. Gyda dwy ddinas (Caerdydd a Chasnewydd) yn rhan greiddiol o'r rhanbarth, mae wedi gweld adfywio a buddsoddi arwyddocaol yn ystod y degawdau diwethaf. Mae Caerdydd, fel y brifddinas, yn ddeinamig yn awr, yn ehangu'n gyflym ac mae disgwyl iddi fod â thwf poblogaeth uwch yn ystod yr 20 mlynedd nesaf nag unrhyw ddinas arall yn y DU.
7. Mae'r ardal yn gartref i amrywiaeth o glystyrau busnes cystadleuol gyda busnesau rhyngwladol a chynhenid arwyddocaol ar draws sectorau fel: gwasanaethau ariannol; diwydiannau creadigol a digidol; gweithgynhyrchu ar lefel uwch; gwyddorau bywyd; ynni; a chyflenwi ynni. Gwasanaethir y clystyrau busnes hyn drwy gyfrwng ecosystem eang a chefnogol. Mae'r ecosystem yn cynnwys sector addysg uwch ffyniannus sy'n cynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru.
8. Fodd bynnag, er gwaetha'r cryfderau hyn, mae heriau niferus yn parhau. Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros, sy'n fesur da o nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, yn is nag ym mhob un o Ddinas Ranbarthau Craidd Lloegr. Ceir hefyd broblemau cysylltedd ar draws y rhanbarth, sy'n ei gwneud yn anos i bobl yng nghymunedau'r Cymoedd sicrhau cyfleoedd economaidd.
9. Gan gydnabod y cyfleoedd a'r heriau hyn, mae pawb sydd wedi llofnodi'r fargen hon yn cydweithio er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef: *"cydweithio i wella bywydau pobl yn ein holl gymunedau. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i bawb ac yn sicrhau ein bod yn diogelu twf economaidd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol"*. Mae'r Fargen Ddinesig hon yn rhoi rhagor o bwerau ac adnoddau i bartneriaid lleol i wireddu'r weledigaeth hon.

# Elfennau Allweddol y Fargen

## Cronfa Fuddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

10. Mae'r Fargen Ddinesig hon yn datgan dull trawsffurfiol o weithredu o ran sut bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sicrhau buddsoddiad ar raddfa ac o natur sy'n ofynnol er mwyn cefnogi cynlluniau twf yr ardal. Yn ganolog i hyn bydd datblygu Cronfa Fuddsoddi gwerth £1.2 biliwn am 20 mlynedd, a ddefnyddir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o brosiectau.
11. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £500 miliwn at y gronfa hon bob un. Bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu am saith mlynedd gyntaf y Gronfa Fuddsoddi, o 2016/17 i 2022/23. Bydd y deg awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyfrannu isafswm o £120 miliwn dros gyfnod y Gronfa o 20 mlynedd. Hefyd, mae mwy na £100m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi cael ei ymrwymo i roi'r Fargen Ddinesig ar waith.
12. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn credu y bydd buddsoddi yn yr ardaloedd hyn yn creu hyd at 25,000 o swyddi newydd ac yn denu o leiaf £4 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol gan bartneriaid lleol a'r sector preifat erbyn 2036.

## Metro De Ddwyrain Cymru

13. Un flaenoriaeth allweddol, y bydd Cronfa Fuddsoddi'r Fargen Newydd yn ei chefnogi, yw darparu Metro De Ddwyrain Cymru. Mae gan y cynllun botensial i ddarparu system lawer gwell o drafnidiaeth gyhoeddus a fydd yn trawsnewid y ffordd mae pobl yn teithio o amgylch y rhanbarth.
14. O ystyried pwysigrwydd y Metro i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, bydd cyfran o'r Gronfa Fuddsoddi'n cael ei neilltuo ymlaen llaw i roi'r cynllun hwn ar waith. Mae'r neilltuo ymlaen llaw yn canolbwyntio ar ddau gam cynllun ehangach y Metro. Dyma'r camau:
  - Gweithredu'r rhaglen i Drydaneiddio Lein y Cymoedd. Mae'r Fargen Ddinesig hon yn ailgadarnhau cydchelgais parhaus y ddwy Lywodraeth a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i roi'r elfen hon o gynllun ehangach y Metro ar waith. Mae £325 miliwn allan o'r £1.2 biliwn yn y Gronfa Fuddsoddi wedi cael ei ymrwymo eisoes i roi'r cynllun hwn ar waith (£125 miliwn gan Lywodraeth y DU, £94 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £106 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop).
  - Rhoi cynllun ehangach Metro De Ddwyrain Cymru ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn neilltuo mwy na £400m o gyllid pellach ymlaen llaw o'r Gronfa Fuddsoddi er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau ehangach sy'n gysylltiedig â chynllun y Metro, sy'n parhau i gael ei gynllunio ar hyn o bryd. Fel rhan o'r Fargen Ddinesig hon, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y gwaith o gynllunio cynllun ehangach y Metro ar y cyd, ac yn y gwaith o gaffael sefydliad darparu.
15. Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer gwneud y cyfraniad y cytunwyd arno at brosiect Trydaneiddio Lein y Cymoedd gyda Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno gyda'r awdurdodau lleol y trefniadau ar gyfer

rheoli'r cyllid i'r cynllun Metro, a sut mae'n rhyngweithio â chyllid ar gyfer buddsoddiadau Metro ychwanegol a ddarperir drwy gyfrwng y Fargen Ddinesig hon.

### **Blaenoriaethau Buddsoddi Ehangach**

16. Defnyddir yr elfen sy'n weddill o'r Gronfa Fuddsoddi i fwrw ymlaen ag amrywiaeth eang o brosiectau a chynlluniau sy'n cefnogi twf economaidd ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gwneir penderfyniadau ynghylch blaenoriaethu'r cynlluniau hyn gan Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ymhlith y cynlluniau y gellid bwrw ymlaen â hwy mae: cynlluniau trafnidiaeth pellach; buddsoddi i ryddhau safleoedd ar gyfer tai a chyflogaeth; a datblygu cyfleusterau ymchwil ac arloesi.

### **Fframwaith Sicrwydd y Gronfa Fuddsoddi**

17. Mae'r deg awdurdod lleol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwymo i ysgrifennu a mabwysiadu fframwaith sicrwydd ar gyfer y Gronfa Fuddsoddi hon. Cytunir ar hyn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Drwy fabwysiadu'r fframwaith sicrwydd cyn dechrau'r Gronfa Fuddsoddi, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sicrhau bod y cynlluniau a weithredir (y tu allan i Fetro De Ddwyrain Cymru, a fydd yn cael ei asesu ar wahân yn erbyn fframwaith sicrwydd) yn cynrychioli gwerth da am arian ac yn seiliedig ar achos busnes cadarn.
18. Bydd y fframwaith sicrwydd hwn yn seiliedig ar arferion gorau presennol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Hefyd, bydd y fframwaith yn seiliedig ar unrhyw arferion gorau lleol er mwyn rheoli penderfyniadau buddsoddi ledled y Brifddinas-Ranbarth. Dyma'r prif elfennau a fydd yn rhan o'r fframwaith sicrwydd:
  - pwrpas, strwythur ac egwyddorion gweithredu'r fframwaith;
  - trefniadau i sicrhau gwerth am arian a gweithredu effeithiol drwy ddatblygu prosiectau cadarn, gwerthuso prosiectau ac opsiynau, blaenoriaethu, a datblygu achos busnes;
  - disgrifiad o'r trefniadau ar gyfer cefnogi gweithredu prosiectau a chynlluniau'n effeithiol, gan gynnwys perthnasoedd gyda chyrrff darparu; a
  - trefniadau a fydd yn galluogi cyfraniad effeithiol ac ystyrlon gan bartneriaid lleol a'r cyhoedd at y penderfyniadau buddsoddi a wneir a'r craffu dilynol ar y penderfyniadau hyn.

### **Asesiadau Porth y Gronfa Fuddsoddi**

19. Bydd yn ofynnol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd werthuso effaith y Gronfa Fuddsoddi er mwyn rhyddhau cyllid nad yw wedi'i neilltuo ymlaen llaw i raglen Metro De Ddwyrain Cymru. Bydd hyn yn cynnwys asesiadau porth bob pum mlynedd. Fel sail i'r asesiadau hyn, bydd adolygiad annibynnol yn cael ei gomisiynu er mwyn gwerthuso manteision economaidd ac effaith economaidd y buddsoddiadau a wneir o dan y cynllun, gan gynnwys a yw'r prosiectau wedi cael eu rhoi ar waith ar amser a chan gadw at y gyllideb. Cyllidir yr asesiad hwn gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ond cytunir arno ar y dechrau gyda Llywodraeth y DU. Bydd y gyfran o gyllid ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cael ei rhyddhau os yw Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn fodlon bod yr asesiad annibynnol yn dangos bod y buddsoddiadau wedi bodloni amcanion allweddol ac wedi cyfrannu at dwf cenedlaethol.

## **Benthyca gan Awdurdodau Lleol**

20. Drwy gydol rhaglen y Fargen Ddinesig, bydd y deg awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyfrifol am gyllido'r rhaglen buddsoddi cyfalaf. Efallai y bydd y gwahaniaeth yn y proffil rhwng y buddsoddiad arfaethedig a'r cyllid grant cyfalaf yn golygu bod rhaid i awdurdod neu awdurdodau lleol fenthyca i gyllido unrhyw wahaniaeth mewn gwariant a grant. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol neu'r awdurdodau lleol perthnasol yw cost unrhyw fenthyca allanol a rhaid ei reoli yn unol ag egwyddorion darbodus - rhaid iddo fod yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.
21. Mewn sefyllfa lle na fydd Porth y Gronfa Fuddsoddi'n cael ei sicrhau yn y dyfodol, gan arwain at ostyngiad yng ngrant y Fargen Ddinesig, neu'r grant yn dod i ben, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol unigol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd fydd rheoli effaith ariannol hyn ar gyllideb eu hawdurdod lleol, gan ddefnyddio arian wrth gefn neu warged, yn ôl yr angen.

## **Hyblygrwydd Ychwanegol**

22. Er mwyn cyflawni ymrwymadau Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a strategaeth economaidd tymor hwy, mae'r deg awdurdod lleol wedi gofyn am fwy o ymreolaeth a hyblygrwydd ariannol. Fel rhan o'r Fargen Ddinesig hon, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y canlynol gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd:
  - datganoli incwm cyfradd busnes sy'n uwch na llinell sylfaen y cytunwyd arni ar gyfer twf i ddarparu cyllid ar gyfer rhaglen y Fargen Ddinesig;
  - darparu gallu i ofyn am ategiad seilwaith;
  - creu opsiwn i awdurdodau lleol ddefnyddio ffynonellau cyllido amgen; a
  - dileu'r amodau sy'n gysylltiedig â rhai o grantiau penodol Llywodraeth Cymru, er mwyn caniatáu i gyllid gael ei bwlio ar lefel ranbarthol mewn meysydd fel cynnal ysgolion ac ymyriadau sy'n ceisio rhoi sylw i dlodi.

## Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

23. Mae gan drafnidiaeth rôl allweddol i'w chwarae mewn creu twf economaidd a gwella canlyniadau i bobl drwy gysylltu cymunedau, busnesau, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau. Fodd bynnag, ledled y Brifddinas-Ranbarth, ceir materion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â thagfeydd a chapasiti trafnidiaeth y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Bydd Cronfa Fuddsoddi'r Fargen Ddinesig a Metro De Ddwyrain Cymru yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at wella cysylltedd trafnidiaeth.
24. Yn ychwanegol at y buddsoddiad hwn bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sefydlu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol anstatudol i gydlynu'r cynllunio a'r buddsoddi mewn trafnidiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Bydd Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyfrifol am y canlynol:
  - pwlio adnoddau trafnidiaeth lleol;
  - cynllunio rhanbarthol ar gyfer y rhwydwaith trafnidiaeth lleol;
  - gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i sicrhau cadw at yr amcanion buddsoddi mewn trafnidiaeth;
  - ystyried creu llwyfan tocynnau integredig unigol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
  - Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn diffinio blaenoriaethau cysyniad Metro De Ddwyrain Cymru a chefnogi ei ddarparu; a
  - gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i hybu datblygu llwybrau hedfan integredig o Faes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan i sicrhau budd economaidd.



## **Buddsoddi mewn Arloesi a'r Rhwydwaith Digidol**

25. Mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ddyhead i ymestyn y "bwa arloesi" sy'n rhedeg ar hyd coridor yr M4 i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gan fanteisio ar gryfderau ymchwil tair prifysgol y Rhanbarth, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dynodi "Ardal Arloesi" sy'n helpu i: greu a meithrin busnesau twf uchel newydd; cynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu; a darparu'r sgiliau mae busnesau eu hangen nawr ac yn y dyfodol.

## **Datblygu Sector y Lled-ddargludyddion Cyfansawdd**

26. Er mwyn trawsnewid gallu'r DU, a helpu i osod Caerdydd fel arweinydd Ewropeidd ar raglenni Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £50 miliwn mewn sefydlu Catapult newydd yng Nghymru. Bydd y Catapult newydd hwn yn ategu gwaith sefydliadau eraill yng Nghymru sydd eisoes yn gweithio yn y maes pwysig hwn, gan gynnwys yr Athrofa Lled-ddargludyddion Cyfansawdd ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, menter ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd ac IQE.
27. Gan gydnabod y cyfle hwn, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn blaenoriaethu ymyriadau sy'n cefnogi datblygu clwstwr o Led-ddargludyddion Cyfansawdd sy'n gystadleuol yn rhyngwladol. Cred partneriaid lleol y bydd hyn yn gosod y DU wrth galon technoleg twf byd-eang newydd.

## **Buddsoddiadau Arloesi**

28. Er mwyn cyflymu twf mewn arloesi a hwyluso buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ceisio rhoi blaenoriaeth i'r canlynol:
  - mecanweithiau i gefnogi sectorau twf uchel;
  - datblygu cyfleusterau a safleoedd cyflogaeth newydd;
  - dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
  - yr Academi Meddalwedd newydd yng Nghasnewydd a rhaglenni cysylltiedig ledled y Brifddinas-Ranbarth;
  - buddsoddi mewn masnacheiddio a chreu eiddo deallusol;
  - ychwanegu gwerth ac ategu'r gefnogaeth arloesi bresennol; a
  - datblygu academi seibr-ddiogelwch gyda Phrifysgol De Cymru.

## **Innovate UK**

29. Mae Innovate UK yn bwriadu cynyddu ei bresenoldeb yng Nghymru yn awr er mwyn: creu mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhaglenni Innovate UK; cryfhau ei gysylltiadau â busnesau, prifysgolion a phartneriaid allweddol eraill; a gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn hybu a chefnogi arloesi.

## **Data**

30. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwymo i ddatblygu cynigion ar gyfer sut gellid gwneud defnydd gwell a mwy hyblyg o ddata i sbarduno arloesi ledled y sector

cyhoeddus ac yn yr economi ehangach. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyflwyno achos clir i Lywodraeth y DU o ran sut byddai dull gwahanol o ddefnyddio data penodol yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau ac o fudd i grwpiau penodol.

### **Y Rhwydwaith Digidol**

31. Bydd arloesi'n thema ganolog yn uchelgais Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddarparu seilwaith digidol eithriadol ac ecosystem ehangach i gefnogi twf economaidd. Er mwyn parhau i adeiladu ar fuddsoddiadau mewn band eang y genhedlaeth nesaf, ac enw da'r Rhanbarth fel un o'r canolfannau technolegol sy'n datblygu gyflymaf yn y DU, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhoi blaenoriaeth i'r canlynol:

- ystyried yr achos dros gysylltedd rhyngwladol uniongyrchol;
- y seilwaith symudol ar draws technolegau 4G a 5G sy'n ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol;
- cynyddu gwasanaethau Wi-Fi ar drafnidiaeth gyhoeddus;
- datrysiadau digidol i ddatrys y problemau mawr, fel tai effeithlon, taliadau dinasyddion a heriau data agored; a
- hwyluso cydweithredu rhwng rhanddeiliaid er mwyn canfod cyfleoedd a manteisio i'r eithaf arnynt.

## **Datblygu Gweithlu Sgilledig a Mynd i'r Afael â Diweithdra**

32. Bydd y Fargen Ddinesig hon yn gwella'r gwaith o gydlynu a darparu cefnogaeth sgiliau a chyflogaeth ledled y Brifddinas-Ranbarth. Bydd yn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n symud i waith (gan gynnwys y rhai sydd wedi bod allan o waith am amser hir), cynyddu nifer y bobl sy'n ymgymryd â phrentisiaeth neu ddarpariaeth sgiliau berthnasol arall, a rhoi i bobl y sgiliau y mae arnynt eu hangen er mwyn cystadlu mewn marchnad fyd-eang.

### **Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

33. Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau'n cael ei haddasu i anghenion economaidd a chymdeithasol lleol, ac yn darparu'r gwerth gorau am arian, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cryfhau'r Bartneriaeth Ddysgu, Sgiliau ac Arloesi bresennol. Bydd hon yn cael ei hail-lansio yn 2016 fel Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
34. Bydd y Bartneriaeth yn cynrychioli amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys: cyrff busnes; addysg uwch a phellach; awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd yn gyfrifol am y canlynol:
- strategaeth sgiliau a bod heb waith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
  - adnoddau sgiliau awdurdodau lleol wedi'u pwlio;
  - llunio cynllun rhanbarthol blynyddol ar gyfer cyflogaeth a sgiliau. Bydd y cynllun blynyddol hwn, dan arweiniad diwydiant, yn datgan sut rhoddir sylw i anghenion sgiliau presennol busnesau a heriau sgiliau'r Brifddinas-Ranbarth yn y dyfodol;
  - dylanwadu ar gyflwyno rhaglenni cyflogaeth a sgiliau ledled y Rhanbarth, effaith y rhaglenni hynny a'u monitro;
  - sicrhau bod dull o weithredu dan arweiniad diwydiant wrth gynllunio a darparu rhaglenni prentisiaeth yn diwallu anghenion busnes a phrentisiaid;
  - cefnogi cynllun "Cwricwlwm ar gyfer Cymru, Cwricwlwm am Oes" Llywodraeth Cymru, drwy annog gwell cyfateb rhwng anghenion sgiliau cyflogwyr yn y dyfodol a'r ddarpariaeth sgiliau ledled y rhanbarth; a
  - sicrhau bod buddsoddiadau cyllid yr Undeb Ewropeaidd mewn sgiliau a chyflogaeth yn ychwanegu gwerth ac yn cyd-fynd â rhaglenni eraill.

### **Rhaglen Gwaith ac Iechyd**

35. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynllunio cefnogaeth cyflogaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol, o 2017 ymlaen, i bobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd a/neu'n ddi-waith yn y tymor hir<sup>1</sup>. Mae llawer ohonynt yn cael eu cyfeirio ar hyn o bryd at y Rhaglen Waith a Dewis Gwaith.
36. Mae swyddogaethau perthnasol yr Adran Gwaith a Phensiynau a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y gwaith cynllunio ar y cyd yn cynnwys:

---

<sup>1</sup> Diffinnir di-waith yn y tymor hir fel hawlio budd-daliadau am 24 mis.

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn pennu'r cwmpas cyllido; fodd bynnag, gall Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru ychwanegu at hwn os ydynt yn dymuno, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny.
- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn pennu sut byddant yn uno gwasanaethau cyhoeddus lleol er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn.
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn pennu'r fframwaith perfformiad lefel uchel, gan sicrhau bod y gefnogaeth yn adlewyrchu materion y farchnad waith yn briodol. Y prif nod fydd lleihau diweithdra a symud pobl i gyflogaeth gynhaliol.
- Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (gan weithio gyda Llywodraeth Cymru) yn cael cyfrannu at benderfynu ar ganlyniadau lleol penodol sy'n adlewyrchu eu blaenoriaethau marchnad waith. Fodd bynnag, dylai'r canlyniadau hyn ategu'r canlyniad cyflogaeth yn y pen draw, Wrth benderfynu ar unrhyw ganlyniad(au) lleol, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn ystyried sylfaen dystiolaeth y farchnad waith a mynegi sut bydd y rhain yn ffitio oddi mewn i'r cyd-destun strategol ac economaidd ehangach ac yn sicrhau gwerth am arian.

37. Cyn dechrau gweithredu, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn datgan cytundeb ar gyfer rôl berthnasol pob parti yn y gwaith o ddarparu a monitro'r gefnogaeth. Bydd hyn yn cynnwys mecanwaith i bob parti fynegi a datrys unrhyw bryderon sy'n codi.
38. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn pennu'r trefniadau contractio, gan gynnwys ardaloedd pecynnau contract, ond dylai ystyried unrhyw gynigion gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghylch daearyddiaeth ardal pecyn contract.
39. Dim ond i'r Adran Gwaith a Phensiynau fydd darparwyr yn atebol, ond bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses o werthuso'r tendrau.
40. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn datblygu mecanwaith i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (gan weithio gyda Llywodraeth Cymru) allu mynegi i'r Adran Gwaith a Phensiynau unrhyw bryderon am berfformiad darparwr/am gadw at gytundebau lleol a gofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau weithredu'n ffurfiol ynghylch y contract lle bo hynny'n briodol.

## **Cefnogi Menter a Thwf Busnes**

41. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi ymrwymo i wella'r cydlynu ar drefniadau cefnogi busnes lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi sylw i'r rhwystrau sydd wedi'u datgan sy'n atal twf, i gefnogi blaenoriaethau gofodol a sectoraidd, ac i dargedu cyfleoedd newydd ar gyfer sbarduno perfformiad economaidd.

### **Sefydliad Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

42. Mae partneriaid lleol yn cydnabod y bydd sicrhau bod llais busnes cadarn yn bodoli i arwain y gwaith o gynllunio a darparu cefnogaeth busnes ledled y rhanbarth yn hanfodol.
43. Felly, gan weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y gymuned fusnes a chyrrff cynrychioladol, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sefydlu Sefydliad Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y sefydliad hwn yn darparu llais busnes clir a fydd yn dylanwadu ar raglenni cefnogi busnes. Wrth greu'r Bwrdd, bydd proses fapio ac ymgynghori'n cael ei rhoi ar waith gyda'r Byrddau cynghori presennol sy'n gweithredu yn y Rhanbarth. Bydd hyn yn sicrhau bod pob rôl a chylch gorchwyl yn ategol ac yn ychwanegu gwerth. Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:
  - mynegi anghenion rhanbarthol busnesau;
  - datgan blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cefnogi busnes presennol; a
  - cynllunio rhaglenni cefnogi busnes y dyfodol.
44. Daw'r aelodaeth o amrywiaeth o sectorau a buddiannau, gan gynnwys mentrau a chydweithfeydd cymdeithasol. Amlinellodd datganiad ar y cyd gan Gonffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn y Busnesau Bach, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Siambr Fasnach De Cymru yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer Gweithredu Busnesau. Cynllunnir y strwythur terfynol gan gymuned fusnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

### **Integreiddio Adnoddau a Gwasanaethau Cefnogi Busnes Lleol**

45. Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau cefnogi a hybu busnes perthnasol yn cael eu cyflwyno ar lefel y Brifddinas-Ranbarth, bydd adnoddau lleol yn cael eu darparu i greu Uned Cyflawni Integredig. Bydd yr uned yn cyflwyno'r agweddau o arwyddocâd rhanbarthol ar ddatblygu economaidd. Mae hyn yn cynnwys: datblygu busnes; marchnata; twristiaeth; a buddsoddi o'r tu allan.
46. Bydd yr Uned Cyflawni Integredig, gan gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Busnes Rhanbarthol arfaethedig, yn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth cefnogi busnes newydd yn ategu'r mentrau cenedlaethol presennol. Hefyd, drwy gyfrwng y dull cydweithredol hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ystyried ble gellir ehangu neu adeiladu ar y ddarpariaeth cefnogi busnes bresennol, gan osgoi dyblygu. Mae nifer o raglenni presennol (er enghraifft, Busnes Cymru, sy'n cynnig gwasanaeth cynghori a chyfeirio ar ffurf siop un stop i fusnesau bach a chanolig ac Entrepreneuriaid) wedi cael eu cynllunio

eisoes drwy ymgynghori â diwydiant ac mae ganddynt botensial i gyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol sydd wedi'u datgan.

47. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn hybu'r ardal ar lefel fyd-eang. Fel rhan o hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau lefelau uwch o amlygrwydd gyda swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru ei hun. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos â Masnach a Buddsoddi y DU er mwyn sicrhau bod ei chynigion yn cael eu hybu a'u cydlynu ledled rhwydwaith tramor Masnach a Buddsoddi y DU.

## Datblygu Tai ac Adfywio

48. Bydd sicrhau cynnydd mewn adeiladu tai ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn helpu i roi sylw i brinder tai difrifol, yn enwedig i brynwyr am y tro cyntaf a'r rhai sy'n methu ymuno â'r 'ystol dai'. Hefyd mae adeiladu tai'n elfen allweddol o'r economi gan ei fod yn faes sy'n: ysgogi galw oddi mewn i'r gadwyn gyflenwi yn ystod gwaith adeiladu a thrwy bryniant gan y preswylwyr a ddaw i'r tai; cyfrannu at fframwaith cynllunio rhanbarthol mwy cytbwys; ac mae'n gyflogwr mawr ar ei liwt ei hun.
49. Mae'r Fargen Ddinesig yn gyfle unigryw i'r deg awdurdod lleol ddod at ei gilydd i ddatblygu a darparu dull strategol o weithredu gyda thai, adfywio a thwf economaidd a fydd yn creu Prifddinas-Ranbarth hygyrch, hynod gysylltiol, 'integredig o ran bywyd a gwaith' a rhanbarth braf i fyw ynddo. I gefnogi'r uchelgais hwn bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gwneud y canlynol:
- Ymrwymo i ddatblygu partneriaeth rhwng Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi dull strategol a chytbwys o weithredu ar waith mewn perthynas â thai ac adfywio, gan ganolbwyntio unrhyw ddatblygiadau ble mae eu hangen fwyaf - mewn ffordd ranbarthol a chydlynol.
  - Sicrhau bod tai newydd yn gysylltiedig â chreu cymunedau cynaliadwy a chytbwys, drwy ailddedfyddio eiddo a safleoedd. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sicrhau bod cynigion i wella effeithlonrwydd ac ansawdd y stoc dai'n cyd-fynd â chanlyniadau adfywio eraill.
  - Sefydlu dull casgliadol o weithio, megis defnyddio cyfrwng datblygu asedau i ddatblygu cyfleoedd tybiannol ar gyfer mentrau adfywio posib Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
  - Datblygu darpariaeth integredig o dai cyhoeddus a phreifat, gan esbonio'r ddeiliadaeth, y gymysgedd o dai, y cynllun a fforddiadwyedd, gyda phrototeip ar gyfer 'aneddiadau'r dyfodol'.
  - Defnyddio arloesi mewn caffael lleol er mwyn sicrhau buddiannau cadwyn gyflenwi, llafur lleol a chymalau cymdeithasol eraill i sicrhau'r gwerth gorau posib.
  - Sefydlu'r gwaith o ddarparu rhaglenni adfywio a thai adnewyddadwy, seiliedig ar ynni, a sicrhau bod egwyddorion 'technoleg lân' yn angor pwysig mewn mentrau datblygu ffisegol. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn creu rhwydweithiau newydd yn y gadwyn gyflenwi.
  - Cynnwys darparwyr y sector tai fforddiadwy yn y rhanbarth fel un rhwydwaith. Gan weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, bydd y rhwydwaith hwn yn datblygu strategaeth "Housing Plus" ranbarthol. Yn y strategaeth hon bydd y manteision gwerth ychwanegol, fel prentisiaethau adeiladu, cadernid ynni a chreu swyddi, yn cael eu datgan yn glir a'u mabwysiadu. Bydd hyn yn darparu fframwaith i flaenoriaethu cynlluniau adfywio safleoedd yn ei erbyn ar gyfer buddsoddi.
50. Wrth gynllunio a darparu prosiectau tai ac adfywio newydd, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Creu Lleodd Llewyrchus Llawn Addewid - fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru a chynyddu'r cyflenwad o dai a chodi'u safon.

## Llywodraethu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

51. Mae'r deg awdurdod lleol sy'n bartneriaid ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cytuno i sefydlu model llywodraethu sy'n gwneud y canlynol:
- cydymffurfio â'r fframwaith statudol presennol sy'n bodoli yng Nghymru er mwyn rhoi'r Fargen Newydd hon ar waith;
  - cryfhau'r trefniadau llywodraethu a phartneriaeth presennol ar draws y Brifddinas-Ranbarth a'u gwneud yn fwy effeithlon;
  - gwella cyfraniad busnesau at wneud penderfyniadau yn lleol;
  - rhoi hyder a sicrwydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru bod arweinwyr yr awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau a fydd yn sbarduno twf economaidd ledled y Brifddinas-Ranbarth; a
  - galluogi awdurdodau lleol i ystyried gyda Llywodraeth Cymru drefniadau llywodraethu eraill yn y tymor canolig.

## Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

52. Gan ddefnyddio'r fframwaith statudol presennol, bydd y deg awdurdod lleol yn sefydlu Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd gan y Cabinet statws Cydbwyllgor a hwn fydd y corff yn y strwythur llywodraethu a fydd yn gwneud y penderfyniadau yn y pen draw.
53. Sefydlu Cabinet y Brifddinas-Ranbarth fydd y cam cyntaf mewn datblygu llywodraethu dinas ranbarth ar lefel uwch ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y Cabinet, a fydd yn cynnwys y deg awdurdod lleol sy'n cymryd rhan, yn darparu sail ar gyfer y penderfyniadau cychwynnol ynghylch y Gronfa Fuddsoddi. Hefyd, bydd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyfrifol am y canlynol:
- Rheoli Cronfa Fuddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
  - darparu cyllid datganoledig ychwanegol i'r Brifddinas-Ranbarth;
  - Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
  - contractio gyda Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â phrosiectau blaenoriaeth Metro;
  - rheolaeth dros incwm cyfradd busnes datganoledig sy'n uwch na rhagolygon twf cytunedig, yn amodol ar gytundeb Llywodraeth Cymru;
  - cynllunio strategol, gan gynnwys tai, cynlluniau trafndiaeth a defnydd tir;
  - dylanwadu ar raglenni bod heb waith a sgiliau;
  - strategaeth marchnata a buddsoddi o'r tu allan; ac
  - ystyried y cwmpas ar gyfer cryfhau llywodraethu Brifddinas-Ranbarth ymhellach.
54. Bydd cytundeb cynhwysfawr yn cael ei lunio rhwng yr awdurdodau cyfranogol, i rwymo ac ymrwymo pob awdurdod lleol unigol, ac unrhyw awdurdod sy'n ei olynu (os bydd ad-drefnu ar lywodraeth leol), am y cyfnod o amser sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r Fargen Ddinesig ar waith. Bydd y cytundeb hefyd yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o ddatganoli swyddogaethau a phwerau ychwanegol i'r Cabinet yn y dyfodol.
55. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwymo i adolygu llywodraethu'r Fargen Ddinesig ac ystyried yr opsiynau yn y dyfodol ar gyfer symud at lywodraethu cryfach a



mwy effeithiol fyth, sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn datgan y camau gweithredu gofynnol i fwrw ymlaen â'r opsiynau llywodraethu yn y dyfodol.

### **Cynllunio Rhanbarthol Strategol**

56. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn ymrwymo i greu cynllun datblygu strategol integredig sy'n cynnwys defnydd tir cyflogaeth a thai oddi mewn i gynlluniau trafndiaeth ehangach. Bydd y cynllun strategol yn darparu glasbrint sy'n sail i ddatblygu ledled y Brifddinas-Ranbarth.

### **Partneriaeth Twf Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

57. Bydd Partneriaeth Twf Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei sefydlu er mwyn dod â busnesau, addysg uwch a llywodraeth leol at ei gilydd. Byddai'r bartneriaeth yn gyfrifol am sefydlu strategaeth datblygu economaidd gyffredinol y brifddinas-ranbarth, yn ogystal â monitro a gwneud argymhellion i'r Cabinet mewn perthynas â gweithredu'r Fargen Ddinesig. Bydd gan y bartneriaeth rôl benodol i ddarparu cyngor a phenderfyniadau buddsoddi. Bydd hyn yn sicrhau bod y Fargen Ddinesig ac ymyriadau eraill yn cael effaith ar dwf economaidd a chynyddu cyflogaeth.
58. Sefydlir aelodaeth a chylch gorchwyl y Bartneriaeth gan ddefnyddio'r arferion rhyngwladol gorau, fel Fforymau Twf Denmarc, yn ogystal â'r model Partneriaeth Fenter Leol yn Lloegr a'r Bwrdd Arweinyddiaeth Economaidd sydd wedi'i sefydlu yn Glasgow.

### **Y Comisiwn Twf a Chystadleurwydd Annibynnol**

59. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sefydlu Comisiwn Twf a Chystadleurwydd annibynnol i gefnogi strategaeth economaidd a buddsoddi'r brifddinas-ranbarth. Bydd yn adolygu'r gweithgareddau cysylltiedig â'r Fargen Newydd, yn ogystal ag ymyriadau economaidd a thwf ehangach.
60. Tasg gyntaf y Comisiwn fydd adolygu'r dystiolaeth am yr ardal economaidd swyddogaethol a chynghori ar sut orau i greu twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros a chefnogi uchelgais prifddinas-ranbarth deinamig.
61. Sefydlir y Comisiwn ar y cyd gan y deg awdurdod lleol sy'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
62. Bydd y Comisiwn yn astudio'r heriau a'r cyfleoedd am dwf economaidd a chystadleurwydd ac yn gwneud argymhellion ar gyfer sut gall Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyflawni ei photensial am dwf yn llawn.

### **Cyflawni, Monitro a Gwerthuso**

63. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu cynllun gweithredu, monitro a gwerthuso cytunedig cyn dechrau gweithredu. Bydd y cynllun yn datgan y dull arfaethedig o weithredu a sut bydd y gweithredu hwnnw'n cael ei werthuso.

64. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei monitro gan y Cabinet ar y Cyd. Bydd tîm rheoli'r rhaglen yn cyflwyno adroddiad perfformiad chwarterol i'r Cabinet, i Lywodraeth y DU ac i Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys y canlynol:
- tynnu sylw at lwyddiannau'r Fargen Ddinesig;
  - darparu crynodeb o berfformiad ar gyfer pob elfen o'r Fargen Ddinesig yn erbyn amserlenni cytunedig y cynllun gweithredu;
  - darparu gwybodaeth am yr allbwn a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt;
  - datgan camau gweithredu lliniarol ar gyfer prosiectau a rhaglenni heb eu gweithredu oddi mewn i'r amserlenni y cytunwyd arnynt;
65. Bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i gytuno ar amserlen ar gyfer cynhyrchu'r adroddiadau hyn a byddant yn galw cyfarfodydd cynnydd rheolaidd.
66. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwymo i gydnabod y "Fargen Ddinesig" wrth hybu a brandio buddsoddiadau a wneir o ganlyniad i'r Fargen hon. Mae hyn yn cynnwys cydnabod Llywodraeth y DU yn gyfartal ochr yn ochr â'r partneriaid cyllido eraill. Efallai y bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dymuno ystyried sefydlu un hunaniaeth brand unigryw i gynrychioli ardal y Brifddinas-Ranbarth yn ei chyfanrwydd, a'r holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â rhoi'r Fargen Ddinesig ar waith.